POLISI TOILEDAU

TOILET POLICY

2019

Cyflwyniad

Mae'r ysgol yn cydnabod bod cyfleusterau toiled sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, lle mae dysgwyr a staff yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, ac sydd ar gael iddyn nhw drwy gydol y diwrnod ysgol, yn hanfodol ar gyfer iechyd, lles a dysgu. Rydyn ni'n gwerthfawrogi ac yn parchu ein dysgwyr a staff ac rydyn ni am iddyn nhw allu manteisio ar ddarpariaeth dda ac arfer da.

Nôd ein polisi yw:

- Galluogi disgyblion, staff ac ymwelwyr i ddefnyddio'r cyfleusterau toiled drwy gydol y dydd er mwyn hybu iechyd, lles a chyfleoedd dysgu pob dysgwr.
- Darparu cyfleusterau toiled o ansawdd da drwy'r ysgol gyfan.

Sut fyddwn yn cyflawni ein hamcanion?

- Sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei dderbyn a'i gynnal gan y gymuned ysgol gyfan - rheolwyr yr ysgol, staff, dysgwyr, llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr, rheolwr y safle, staff glanhau a staff ategol.
- Sicrhau bod yr holl doiledau ar agor ac ar gael i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr drwy gydol y diwrnod ysgol. Er y gall disgyblion ddefnyddio'r cyfleusterau toiled yn ystod amserau egwyl ac amser cinio os bydd angen, rydyn ni am sicrhau gall disgyblion eu defnyddio unrhyw bryd. Rydyn ni'n cydnabod bod anghenion toiled dysgwyr yn amrywio'n fawr ac nad ydyn nhw'n cydymffurfio ag amserlenni caeth. Ar lefel uwchradd, er mwyn lleihau'r angen i ddysgwyr adael gwersi, byddwn ni'n darparu cyfleodd rheolaidd ac aml i fynd i'r toiled. Rydyn ni'n cydnabod bod rhai dysgwyr ond yn teimlo'n gyfforddus yn mynd i'r toiled pan na fydd pobl eraill o amgylch a byddwn ni'n caniatau iddyn nhw adael y dosbarth i ddefnyddio'r toiled.
- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn addas ar gyfer yr amrywiaeth o ddefnyddwyr disgwyliedig, gan gynnwys disgyblion ag anableddau ac anghenion arbennig, gyda goleuadau, gosodiadau a ffitiadau digonol.
- Sicrhau bod y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn diwallu anghenion pob dysgwr a sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu mewn ffordd sensitif, hyddysg a phriodol.
- Sicrhau bod y toiledau'n darparu preifatrwydd i ddefnyddwyr.
- Sicrhau bod bob amser gan bob ardal doiledau gyflenwad a gynhelir yn briodol o
- ddŵr poeth ac oer, sebon hylif, cyfleusterau sychu dwylo a phapur toiled mewn peiriannau, sydd wedi'u gosod ar uchder cyfleus.
- Sicrhau bod unedau gwaredu cynhyrchion misglwyf yn y toiledau cyhoeddus, anabl ac yn ciwbiclau'r merched yn y toiledau ar gyfer disgyblion CA2. Dylid sicrhau bod yr unedau gwaredu yn y toiledau yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.
- Gweithredu a chynnal system effeithiol o lanhau, goruchwylio ac arolygu toiledau er mwyn sicrhau safon briodol o ran y ddarpariaeth a glendid drwy gydol y diwrnod ysgol.
- Gosod cyflenwadau dŵr yfed mewn lleoliadau diogel a phriodol, ac nid mewn ardaloedd toiled.
- Goruchwylio'r toiledau yn ystod amserau egwyl ac amser cinio, os bydd dysgwyr yn credu bod angen gwneud hynny.
- Ceisio barn y gymuned ysgol gyfan mewn perthynas ag unrhyw bryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth doiledau a materion o ran mynediad (gan sicrhau gweithdrefn sy'n hawdd i'r dysgwyr ei defnyddio er mwyn rhoi gwybod am wendidau neu broblemau) ac

ymateb o ddifrif i'r rhain a delio gydag unrhyw broblemau a amlygir gan ddisgyblion ac eraill yn brydlon.
- Mynd ati'n weithredol i ymgynghori â'r disgyblion a'u cynnwys yn y gwaith o reoli'r toiledau (drwy gyngor yr ysgol neu sefydlu gweithgor).
- Annog dysgwyr i barchu'r toiledau (drwy gyfrwng y Cyngor Ysgol, gwersi Datblygiad Personol a Chymdeithasol/ABCh, yn ystod cyfnodau trafod a'r athro/athrawes dosbarth neu wasanaethau ysgol) ac annog dysgwyr i sefydlu Cod Ymddygiad ar gyfer toiledau ac ystafelloedd ymolchi.
- Cynnwys materion yn ymwneud â rheoli toiledau yn rheolaidd ym mhob un o gyfarfodydd priodol cyngor yr ysgol, staff, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr.
- Darparu ardaloedd cymdeithasol dan do er mwyn atal yr arfer o ddefnyddio toiledau at ddibenion o'r fath. Gweithredu a chynnal adolygiadau blynyddol o'r polisi i fonitro pa un ai yw'n cael ei ddilyn a pha un ai yw'n parhau yn berthnasol.

Rôl Llywodraethwyr

Cyrff Llywodraethu sy'n gyfrifol am fonitro trefniadau ysgolion o ran rheoli iechyd a diogelwch. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys darparu datganiad byr ar gyfer Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr yr ysgol am y cyfleusterau toiled a ddarperir i ddysgwyr cofrestredig yr ysgol a'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau eu bod yn lân.

Gweler hefyd y dogfennau canlynol:

Toiledau ysgol: Canllaw arfer da ar gyfer ysgolion yng Nghymru www.cymru.gov.uk

Introduction

The school recognises that well-maintained toilet facilities, where learners and staff feel comfortable and safe, and accessible to them throughout the school day, are essential for health, wellbeing and learning. We value and respect our learners and staff and want them to have access to good provision and good practice.

Our policy aims to:
- Enable pupils, staff and visitors to use the toilet facilities throughout the day to promote the health, wellbeing and learning opportunities of all learners.
- Providing good quality toilet facilities throughout the school.

How will we achieve our objectives?
- Ensure that this policy is accepted and maintained by the whole school community - school managers, staff, learners, governors, parents / carers, site manager, cleaning staff and ancillary staff.
- Ensure that all toilets are open and available to pupils, staff and visitors throughout the school day. Although pupils can use the toilet facilities during break and lunch times if required, we want to ensure that pupils can use them at any time. We recognize that learners' toilet needs vary greatly and do not conform to strict timescales. At secondary level, in order to reduce the need for learners to leave lessons, we provide regular and frequent toilet opportunities. We recognize that some learners only feel comfortable going to the toilet when other people are not around and we will allow them to leave the classroom to use the toilet.

- Ensure that the toilets and bathrooms are suitable for the range of expected users, including pupils with disabilities and special needs, with adequate lighting, fixtures and fittings.
- Ensure that the toilets and bathrooms meet the needs of all learners and ensure that these needs are met sensitively, knowledgeably and appropriately.
- Ensuring that the toilets provide privacy for users.
- Ensure that all toilet areas always have a properly maintained supply of hot and cold water, liquid soap, hand drying facilities and toilet paper, which is conveniently installed.
- Ensure that sanitary products disposal units are in the public, disabled toilets and girls cubicles in the toilets for KS2 pupils. It should be ensured that the disposal units in the toilets are serviced regularly.
- Operate and maintain an effective system of cleaning, supervision and supervision of toilets to ensure an appropriate standard of provision and cleanliness throughout the school day.
- Install drinking water supplies in safe and appropriate locations, not in toilet areas.
- Supervise the toilets during break and lunch times, if learners think it necessary.
- Seek the views of the whole school community in relation to any concerns regarding toilet provision and access issues (ensuring a user-friendly procedure for reporting weaknesses or problems) and respond seriously and deal with any problems highlighted by pupils and others promptly.
- Actively consult and involve pupils in the management of the toilets (through the school council or setting up a working group).
- Encourage learners to respect the toilets (via the School Council, Personal and Social Development / PSE lessons, during discussion periods with the class teacher or school assemblies) and encourage learners to establish a Code of Conduct for toilets and rooms washing.
- Include issues relating to the regular management of toilets in all appropriate meetings of the school council, staff, parents / carers and governors.
- Provision of indoor social areas to prevent the use of toilets for such purposes. Implement and conduct annual reviews of the policy to monitor whether it is being followed and is still relevant.

Role of Governors
Governing Bodies are responsible for monitoring schools' health and safety management arrangements. This responsibility includes providing a brief statement to the school Governors Annual Report on the toilet facilities provided to the school's registered learners and the arrangements in place to ensure that they are clean.

See also the following documents:
School toilets: A good practice guide for schools in Wales

www.wales.gov.uk

	Enw / Name	Llofnod / Signed	Dyddiad / Dyddiad

Cadeirydd y Llywodraethwyr / Chair of Governors	Dr Sioned Thomas		6/11/19
Pennaeth yr Ysgol / Headteacher	Mr S Mason-Evans		6/11/19

Dyddiad Adolygu / Review date:	November / Tachwedd 2021